OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2901

# Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

## RHAN 6

## Cyffredinol

### Cadw cofnodion

**32.**—(1) Rhaid i bennaeth gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol gadw cofnod o'r canlynol—

(a) yr holl hysbysiadau gan aelodau o'r awdurdod lleol hwnnw o gyfnodau o absenoldeb teuluol; a

(b) yr holl gyfnodau o absenoldeb teuluol a gymerwyd gan aelodau o'r awdurdod lleol hwnnw.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gadw cofnod a wneir o dan baragraff (1) am o leiaf 10 mlynedd ar ôl y dyddiad y'i gwneir.

### Dyletswydd i hysbysu

**33.**—(1) Ar ôl i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd gael ei hysbysu yn unol â Rhannau 1 i 5 o'r Rheoliadau bod aelod yn cymryd cyfnod o absenoldeb teuluol, rhaid i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd roi gwybod i bob person perthnasol am y ffaith honno cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "person perthnasol" *("relevant person")* yw —

(a) cadeirydd yr awdurdod lleol, neu pan fo awdurdod lleol wedi ethol aelod llywyddol, aelod llywyddol yr awdurdod lleol hwnnw;

(b) cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr awdurdod lleol; ac

(c) arweinydd pob un o grwpiau gwleidyddol yr awdurdod lleol.

### Diddymu absenoldeb teuluol gan awdurdod lleol

**34.**—(1) Pan fo gan y pennaeth gwasanaethau democrataidd sail resymol i amau nad oes gan aelod, sydd wedi darparu hysbysiad ei fod yn cymryd cyfnod o absenoldeb teuluol, yr hawl i'r absenoldeb teuluol hwnnw, rhaid i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd hysbysu'r awdurdod lleol a darparu'r holl wybodaeth berthnasol.

(2) Pan nad oes gan aelod yr hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol, yn dilyn cael gwybodaeth o dan baragraff (1), caiff awdurdod lleol ddiddymu cyfnod o absenoldeb teuluol aelod cyn iddo ddechrau neu derfynu cyfnod o absenoldeb teuluol.

(3) Pan fo awdurdod lleol yn arfer ei bŵer o dan baragraff (2), rhaid i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd ar gyfer yr awdurdod hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod yn nodi—

(a) y penderfyniad i ddiddymu neu derfynu cyfnod o absenoldeb teuluol; a

(b) y dyddiad y mae'n rhaid i'r aelod ddychwelyd o'r cyfnod o absenoldeb teuluol.

(4) Pan fo aelod wedi methu â dychwelyd o gyfnod o absenoldeb teuluol ar y dyddiad a bennwyd yn yr hysbysiad a ddarparwyd o dan baragraff (3), caiff awdurdod lleol atal tâl yr aelod hwnnw.

### Cwynion

**35.**—(1) Caiff aelod gyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd ynglŷn â phenderfyniad a wnaed o dan reoliad 34(2).

(2) Rhaid i gŵyn ddod i law'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o fewn 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr hysbyswyd yr aelod o dan reoliad 34(3) o benderfyniad awdurdod lleol o dan baragraff (2) o'r rheoliad hwnnw.

(3) Rhaid i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd atgyfeirio unrhyw gŵyn a gafwyd o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (2) i gadeirydd yr awdurdod lleol neu pan fo awdurdod lleol wedi ethol aelod llywyddol, i'r aelod llywyddol.

### Y panel

**36.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol benodi panel i benderfynu ar gŵyn a wnaed o dan reoliad 35.

(2) Rhaid i'r panel gynnwys tri aelod a benodir gan yr awdurdod lleol.

(3) Ni chaniateir penodi cadeirydd yr awdurdod lleol nac aelod llywyddol awdurdod lleol i'r panel.

(4) Caiff y panel—

(a) cadarnhau penderfyniad awdurdod lleol a wnaed o dan reoliad 34(2); neu

(b) amnewid penderfyniad ei hun o ran hawl aelod i gyfnod o absenoldeb teuluol yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(5) Mae penderfyniad y panel yn derfynol.

### Rheolau sefydlog

**37.** Rhaid i awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, wneud rheolau sefydlog sy'n sicrhau'r gofynion a nodir yn rheoliad 38.

**38.**—(1) Caiff aelod sydd ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb rhiant, yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (6),—

(a) bod yn bresennol mewn cyfarfodydd penodol;

(b) bod yn bresennol mewn cyfarfodydd o ddisgrifiadau penodol;

(c) cyflawni dyletswyddau penodol; neu

(d) cyflawni dyletswyddau o ddisgrifiad penodol.

(2) Rhaid i'r aelod gael caniatâd cadeirydd yr awdurdod lleol, neu pan fo awdurdod lleol wedi ethol aelod llywyddol, yr aelod llywyddol, cyn bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod neu gyflawni unrhyw ddyletswydd.

(3) Rhaid i gadeirydd yr awdurdod lleol, neu pan fo awdurdod lleol wedi ethol aelod llywyddol, yr aelod llywyddol, hysbysu arweinyddion pob un o grwpiau gwleidyddol yr awdurdod lleol cyn rhoi caniatâd o dan baragraff (2).

(4) Caiff aelod gyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd ynglŷn â gwrthodiad o dan baragraff (2).

(5) Rhaid i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd atgyfeirio cwyn o dan baragraff (4) i gadeirydd yr awdurdod lleol, neu pan fo awdurdod lleol wedi ethol aelod llywyddol, i'r aelod llywyddol.

(6) Rhaid i banel a gyfansoddir yn unol â'r Rheoliadau hyn benderfynu ar gŵyn a wnaed o dan baragraff (4).

(7) Caiff y panel—

(a) cadarnhau penderfyniad cadeirydd yr awdurdod lleol, neu pan fo awdurdod lleol wedi ethol aelod llywyddol, penderfyniad yr aelod llywyddol, a wnaed o dan baragraff (2); neu

(b) amnewid penderfyniad ei hun o ran aelod yn bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod neu'n cyflawni unrhyw ddyletswydd.

**39.** Rhaid i awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, wneud darpariaeth mewn rheolau sefydlog ynglŷn â rhychwant y dyletswyddau, os oes rhai, sy'n parhau i fod yn gymwys i aelodau yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol.